

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Safonau hyfforddiant ac addysg presgripsiynwyr fferyllol annibynnol

Ionawr 2019



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn [**communications@pharmacyregulation.org**](mailto:communications@pharmacyregulation.org) os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Rôl y presgripsiynydd.....	Error! Bookmark not defined.
Strwythur y safonau	Error! Bookmark not defined.
Rhan 1: Deilliannau dysgu	Error! Bookmark not defined.
Lefel astudio.....	Error! Bookmark not defined.
Lleiafswm amser dysgu gofynnol.....	Error! Bookmark not defined.
Gweithgareddau dysgu.....	Error! Bookmark not defined.
Dysgu wrth ymarfer	6
Parthau astudio.....	Error! Bookmark not defined.
Deilliannau dysgu.....	Error! Bookmark not defined.
Parth 1: Gofal â phobl yn ganolog iddo.....	7
Parth 2: Proffesiynoldeb	8
Parth 3: Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol.....	8
Parth 4: Cydweithio.....	9
Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau presgripsiynwyr fferyllol annibynnol..	Error! Bookmark not defined.
Gofynion derbyn.....	10
Gofynion dethol a derbyn.....	11
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	12
Rheoli, adnoddau a chapasiti.....	12
Monitro, adolygu a gwerthuso	13
Dylunio a darparu cyrsiau	14
Dysgu wrth ymarfer	15
Asesu	16
Cefnogaeth a'r profiad dysgu.....	17
Ymarferwyr presgripsiynu dynodedig.....	17

Ynghylch y CFfC

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydym yn gweithio i sicrhau a gwella safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

Yr hyn a wnawn

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydym yn gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd eu cyrraedd cyn cael lle ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydym yn gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Drwy ein gwaith, rydym yn helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

Cyflwyniad

Mae fferyllwyr yn cyflawni rôl hollbwysig yn y gwaith o helpu pobl i gynnal a gwella eu hiechyd, diogelwch a lles. Mae'r gwaith o bresgripsiynu mewn lleoliadau na fu hynny'n digwydd ynddynt o'r blaen yn tyfu'n rhan fwyfwy canolog o waith fferyllwyr. Drwy hyn, gall fferyllwyr chwarae rôl bwysig yn helpu pobl i gymryd eu meddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae bod yn bresgripsiynydd annibynnol yn golygu y gallwch pregripsiynu meddyginiaeth heb orfod ymgynghori gyda phresgripsiynydd arall gyntaf.

Nid yw cofrestru'n rhoi hawl i fferyllwyr bresgripsiynu. Rhaid iddynt, yn gyntaf, ddilyn cwrs hyfforddiant ac addysg ychwanegol. Cyrsiau rhan amser yw'r rhain, a phrifysgolion sy'n eu cynnal. Mae dysgu i ymgynghori a phresgripsiynu dan oruchwyliaeth presgripsiynydd profiadol yn rhan allweddol o'r cyrsiau hyn.

Cyn i fferyllwyr hyfforddi i fod yn bresgripsiynwyr rhaid iddyn nhw fod â phrofiad o weithio mewn maes clinigol penodol. O fewn y maes hwnnw y bydd fferylllydd yn dysgu sut i bresgripsiynu.

Mae'r safonau hyn yn disgrifio:

- y wybodaeth a'r sgiliau y bydd presgripsiynwyr fferyllol annibynnol yn eu cyflawni yn ystod eu hyfforddiant a'u haddysg
- ein gofynion ar gyfer darparwyr cyrsiau

Wedi i fferyllwyr gwblhau eu cwrs yn llwyddiannus, gallant wneud cais i'r CFC am anodiad i'w cofnod ar gofrestr y CFC. Mae'r anodiad yn gofnod cyhoeddus eu bod yn gallu ymarfer fel presgripsiynwyr annibynnol.

Rôl y presgripsiynydd

Bydd y gwaith presgripsiynau yn amrywio mewn gwahanol gyd-destunau ond y canlynol fydd wrth ei graidd:

“mae'r presgripsiynydd yn derbyn cyfrifoldeb dros asesu claf yn glinigol, sefydlu diagnosis, a gwneud y gwaith rheoli clinigol sydd ei angen, yn ogystal â chyfrifoldeb dros bresgripsiynu a phriodoldeb y gwaith presgripsiynu” (Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol, 2005)

Strwythur y safonau

Mae dwy ran i safonau hyfforddiant ac addysg presgripsiynwyr fferyllol annibynnol:

- deilliannau dysgu, a
- safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau presgripsiynu annibynnol

Mae Rhan 1, y deilliannau dysgu, yn disgrifio'r hyn y bydd fferylllydd yn gallu ei wneud wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Cyflwynir y deilliannau dysgu mewn pedwar parth:

- gofal â phobl yn ganolog iddo
- proffesiynoldeb
- gwybodaeth a sgiliau proffesiynol, a
- chydweithio

Mae Rhan 2, y safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau presgripsiynau annibynnol, yn disgrifio'r gofynion sydd ar bob darparwr cyrsiau a gofynion derbyn i'r cwrs. Mae naw safon:

Safon 1 – Gofynion dethol a derbyn

Safon 2 – Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Safon 3 – Rheoli, adnoddau a chapasiti

Safon 4 – Monitro, adolygu a gwerthuso

Safon 5 – Dylunio a darparu cyrsiau

Safon 6 – Hyfforddi wrth ymarfer

Safon 7 – Asesu

Safon 8 – Cymorth a'r profiad dysgu

Safon 9 – Ymarferwyr presgripsiynu dynodedig

Rhan 1: Deilliannau dysgu

Safon: Pan fônt wedi cwblhau eu hyfforddiant a'u haddysg yn llwyddiannus, bydd presgripsiynwyr fferyllol annibynnol wedi cyflawni deilliannau dysgu'r safonau hyn.

Lefel astudio

Mae lefel astudio presgripsiynwyr fferyllol annibynnol ar lefel Meistr¹, fel y'i diffinnir mewn fframweithiau cymwysterau cenedlaethol.

Lleiafswm amser dysgu gofynnol

Mater i ddarparwyr y cyrsiau yw'r addysgu, y dysgu a'r asesu, ond rhaid bod o leiaf:

- 26 diwrnod o weithgareddau dysgu strwythuredig, a
- 90 awr o ddysgu wrth ymarfer

Gweithgareddau dysgu

Darparwyr y cyrsiau sy'n diffinio'r 'gweithgareddau dysgu'. Gallant gynnwys gwaith yn y dosbarth, astudio dan gyfarwyddyd, hunan-astudio a gweithgareddau dysgu o bell.

Dysgu wrth ymarfer

Cyfnodau pan fo presgripsiynwyr yn ymarfer dan hyfforddiant ac yn datblygu eu sgiliau clinigol, diagnostig a phresgripsiynu dan gyfarwyddyd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yw 'dysgu wrth ymarfer'. Mae hyn yn cynnwys eu hymarferydd presgripsiynu dynodedig (sy'n gyfrifol am ardystio bod presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant bellach yn bresgripsiynydd â gallu).

¹ Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau presgripsiynu'r presennol eisoes ar lefel Meistr.

Parthau astudio

Cyflwynir y deilliannau dysgu dan bedwar parth:

- Gofal â phobl yn ganolog iddo
- proffesiynoldeb
- gwybodaeth a sgiliau proffesiynol, a
- chydweithio

Mae'r parthau a'r deilliannau dysgu i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd.




Deilliannau dysgu

Yn y safonau hyn, defnyddir Triongl Miller i ddangos lefel y deilliant. Mae triongl Miller yn hierarchaeth gwybodaeth a gallu sy'n disgrifio pedair lefel deilliant:

1. 'yn gwybod' (meddu ar wybodaeth)
2. 'yn gwybod sut' (cymhwyso gwybodaeth)
3. 'yn dangos sut' (arddangos gallu mewn ffordd gyfyngedig)
4. 'yn gwneud' (arddangos gallu'n gyson ac yn ddiogel)

Mae'r deilliannau yn y safonau hyn wedi eu gosod ar y lefel gywir ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant.

Dyma'r deilliannau dysgu:



Parth 1: Gofal â phobl yn ganolog iddo

Bydd presgripsiynwyr fferyllol annibynnol yn gallu gwneud y canlynol o gael eu hanodi:

1. Yn adnabod effaith seicolegol a chorfforol penderfyniadau presgripsiynu ar bobl	Yn gwybod sut
2. Yn deall, ac yn cyflawni, eu dyletswyddau cyfreithiol dan ddeddfau cydraddoldeb a hawliau dynol, ac yn parchu amrywiaeth a gwahaniaethau diwylliannol	Yn gwneud
3. Yn derbyn cyfrifoldeb dros sicrhau nad yw gwerthoedd a chredoau personol yn cyfaddawdu gofal â phobl yn ganolog iddo	Yn gwneud
4. Yn arddangos technegau cofnodi hanes priodol drwy sgiliau ymgynghori effeithiol	Yn gwneud
5. Yn arddangos dealltwriaeth o rôl y presgripsiynydd wrth weithio mewn partneriaeth gyda phobl efallai na fydd yn gallu gwneud penderfyniadau deallus am eu hanghenion iechyd	Yn dangos sut
6. Helpu pobl i wneud penderfyniadau deallus sy'n parchu dewisiadau pobl	Yn gwneud

Parth 2: Proffesiynoldeb

Bydd presgripsiynwyr fferyllol annibynnol yn gallu gwneud y canlynol o gael eu hanodi:

1. Yn dangos dealltwriaeth feirniadol o'u rôl eu hunain a rolau pobl eraill mewn timau ambroffesiwn	Yn gwneud
2. Deall eu rôl eu hunain fel presgripsiynwyr cyfrifol ag atebolrwydd sy'n deall ymhygiadau cyfreithiol a moesegol eu gwaith	Yn gwneud
3. Cymhwyso deddfwriaeth a fframweithiau moesegol perthnasol sy'n ymwneud â phresgripsiynu, gan gynnwys presgripsiynu o bell a delio gyda a rhannu gwybodaeth gyfrinachol	Yn dangos sut
4. Adnabod a rheoli ffactorau a allai effeithio ar benderfyniadau presgripsiynu	Yn gwneud
5. Cymhwyso canllawiau, polisiau a deddfwriaeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gofal iechyd	Yn gwneud
6. Adfyfrio ar a datblygu eu hymarfer presgripsiynu eu hunain er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu yr arferion gorau diweddaraf	Yn gwneud
7. Cymhwyso dealltwriaeth o'r economïau iechyd wrth wneud penderfyniadau presgripsiynu	Yn dangos sut
8. Deall llywdoraethiant clinigol y presgripsiynydd a allai hefyd fod mewn safle i allu cyflenwi meddyginiaethau i bobl	Yn gwybod sut
9. Deall ymarfer gweithwyr proffesiynol eraill a mynegi pryderon yn ymwneud â phresgripsiynu amhriodol neu anniogel gan eraill	Yn dangos sut

Parth 3: Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol

Bydd presgripsiynwyr fferyllol annibynnol, yn gallu gwneud y canlynol o gael eu hanodi:

1. Cymhwyso penderfyniadau wedi eu gwneud ar sail tystiolaeth ymhob agwedd ar bresgripsiynu	Yn gwneud
2. Rheoli'r risgiau a'r buddion ynghlwm wrth benderfyniadau presgripsiynu	Yn gwneud
3. Arddangos bod ffarmacoleg yn cael ei chymhwyso at eu hymarfer presgripsiynu eu hunain	Yn gwneud
4. Arddangos sgiliau clinigol a diagnostig mewn lleoliadau clinigol addas at gwmpas eu hymarfer	Yn gwneud



5. Creu a chynnal cofnodion priodol sy'n sicrhau bod gofal yn ddiogel ac yn effeithiol ac yn alinio gyda deddfwriaeth berthnasol	Yn gwneud
6. Adnabod ymchwiliadau perthnasol a dehongli canlyniadau a data wrth ymarfer	Yn gwneud
7. Defnyddio systemau a thechnolegau'r presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg er mwyn presgripsiynu'n ddiogel	Yn gwneud
8. Deall ac ymateb i anghenion pobl wrth bresgripsiynu o bell	Yn dangos sut
9. Cymhwyso egwyddorion monitro a rheoli effeithiol er mwyn gwella deilliannau i gleifion	Yn gwneud
10. Adnabod a rheoli camgymeriadau mewn presgripsiynu ac mewn meddyginiaethau	Yn dangos sut
11. Deall materion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd a hybu iechyd yn rhan o'u hymarfer	Yn gwneud

Parth 4: Cydweithio

Bydd presgripsiynwyr fferyllol annibynnol, yn gallu gwneud y canlynol o gael eu hanodi:

1. Cydweithio gydag eraill i wneud yn fawr o ofal unigolyn, a deall eu rôl yn y broses bresgripsiynu	Yn gwneud
2. Deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain, ac eraill, wrth ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed	Yn gwybod sut
3. Deall pryd a ble i atgyfeirio pobl yn briodol	Yn dangos sut
4. Cydweithio gyda phobl i'w hannog i dderbyn cyfrifoldeb dros reoli gofal	Yn gwneud
5. Arddangos sgiliau ymgynghori priodol i gael gwybodaeth gan unigolion sydd naill ai'n anymwybodol o'u hanghenion, neu'n gyndyn o'u datgelu, er mwyn presgripsiynu'n ddiogel	Yn gwneud
6. Deall pryd mae angen gofyn am gyfarwyddyd gan aelod arall o'r tîm gofal iechyd neu awdurdod priodol	Yn gwneud

Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau presgripsiynu fferyllol annibynnol

Mae Rhan 2 yn disgrifio'r gofynion derbyn ar gwrs presgripsiynu fferyllol annibynnol a'r naw safon a'r meini prawf sydd ynghlwm wrthynt.

Gofynion derbyn

Dyma'r gofynion derbyn ar gyfer cwrs presgripsiynu fferyllol annibynnol:

- 1.1. Mae ymgeiswyr wedi eu cofrestru'n fferyllwyr gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC), neu, yng Ngogledd Iwerddon, gyda'r Pharmaceutical Society of Northern Ireland (PSNI).
- 1.2. Mae gan yr ymgeiswyr enw da o fewn y CFfC a/neu'r PSNI ac unrhyw reoleiddiwr gofal iechyd arall y maen nhw'n gofrestredig gyda nhw.
- 1.3. Rhaid bod gan ymgeiswyr o leiaf ddwy flynedd o brofiad ôl-gofrestru perthnasol yn gweithio gyda chleifion mewn lleoliad ymarfer perthnasol yn y DU.
- 1.4. Rhaid bod gan ymgeiswyr faes ymarfer clinigol neu therapiwtig penodol y gellir datblygu ymarfer presgripsiynu fferyllol annibynnol ynddo. Rhaid bod ganddynt hefyd brofiad clinigol neu therapiwtig perthnasol yn y maes hwnnw, sy'n addas i fod yn sail i'w hymarfer presgripsiynu wrth hyfforddi.
- 1.5. Rhaid bod gan ymgeiswyr ymarferydd presgripsiynu dynodedig sydd wedi cytuno i'w goruchwyllo wrth iddynt ddysgu wrth ymarfer. Rhaid bod ymarferydd presgripsiynu dynodedig yr ymgeisydd yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig ym Mhrydain neu Ogledd Iwerddon a meddu ar hawliau presgripsiynau cyfreithiol ac yn meddu ar brofiad a chymwysterau addas i gyflawni'r rôl oruchwyllo. Rhaid hefyd fod wedi gwneud DPP neu waith ail-ddilysu perthnasol i'r rôl hon. Er y gall mwy nag un person oruchwyllo ymgeisydd, dim ond un presgripsiynydd all fod yn ymarferydd presgripsiynu dynodedig. Yr ymarferydd presgripsiynu dynodedig fydd yn ardystio bod fferyllwyr llwyddiannus yn alluog i ymarfer fel presgripsiynwyr annibynnol.

Gofynion dethol a derbyn

Safon 1: Rhaid i brosesau dethol fod yn agored, yn glir a heb ragfarn, a rhaid eu bod yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol a sicrhau bod ymgeiswyr yn bodloni gofynion derbyn.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 1.1 Rhaid i feini prawf derbyn fod yn glir a rhaid iddynt gynnwys gofyniad i ateb y gofynion derbyn a nodir yn y safonau hyn.
- 1.2 Rhaid i ddetholwyr gymhwyso'r meini prawf dethol gyda chysondeb, mewn ffordd sydd heb ragfarn, ac mewn ffordd sy'n ateb gofynion deddfwriaeth berthnasol.
- 1.3 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau ddarparu cyfarwyddyd clir ar y math o brofiad y dylai ymgeiswyr feddu arno cyn ymgeisio am le ar y cwrs. Rhaid i'r cyfarwyddyd hwn fod ar gael i ymgeiswyr cyn iddynt ymgeisio.
- 1.4 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau, wrth ystyried ymgeiswyr, werthuso addasrwydd a pherthnasedd profiad clinigol a therapiwtig ymgeiswyr (y mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ei arddangos yn y cais) yn erbyn gofynion y cwrs.
- 1.5 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau werthuso pob cais yn llawn a phenderfynu a oes gan yr ymgeisydd brofiad perthnasol digonol i gychwyn ar gwrs i hyfforddi i fod yn bresgripsiynydd annibynnol. Os yw darparwr cyrsiau yn penderfynu nad oes gan ymgeisydd brofiad digonol, rhaid i'r cais gael ei wrthod, gan egluro'n glir y rhesymau dros wrthod.
- 1.6 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau sicrhau bod yr holl ofynion derbyn yn cael eu bodloni cyn dyddiad cychwyn y cwrs y mae'r ymgeisydd wedi ei ymrestru arno.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Safon 2: Rhaid i bob agwedd ar hyfforddiant ac addysg presgripsiynu fferyllol annibynnol fod wedi ei seilio ar egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u hybu, a chydymffurfio gyda phob deddf berthnasol.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 2.1 Rhaid bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi eu gwreiddio yn, a'u hybu drwy, dyluniad a darpariaeth y cyrsiau.
- 2.2 Rhaid defnyddio data cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddylunio a darparu cyrsiau a'r profiad dysgu.
- 2.3 Rhaid gwneud addasiadau rhesymol i'r ddarpariaeth cyrsiau i helpu hyfforddeion presgripsiynu fferyllol annibynnol sudd ag anghenion penodol i gyflawni'r deilliannau dysgu.
- 2.4 Gellir diwygio'r addysgu, y dysgu a'r asesu i gyflawni 2.3 ond ni ellir newid y deilliannau dysgu.
- 2.5 Rhaid i ddyluniad a darpariaeth cyrsiau sicrhau bod presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant yn deall eu cyfrifoldebau cyfreithiol dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Rheoli, adnoddau a chapasiti

Safon 3: Rhaid i gyrsiau gael eu cynllunio a'u cynnal drwy brosesau tryloyw y mae'n rhaid iddynt ddangos pwy sy'n atebol dros beth. Rhaid i'r cyfleusterau addysgu a hyfforddi, y seilwaith, arweiniad, staffio a'r cymorth i staff, fod yn ddigonol i ddarparu'r cwrs.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 3.1 Rhaid i gynllun rheoli diffiniedig fod yn gefn i bob cwrs, a rhaid i hwnnw gynnwys:
 - cofrestr rolau a chyfrifoldebau dysgu, addysgu ac ymarfer;
 - llinellau atebolrwydd o ran amgylcheddau dysgu, addysgu ac ymarfer;
 - strwythurau a phrosesau diffiniedig i reoli'r ddarpariaeth, a
 - phrosesau ar gyfer adnabod a rheoli risgiau
- 3.2 Rhaid bod cytundebau yn eu lle yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pawb sydd ynghlwm wrth ddarparu cwrs.
- 3.3 Rhaid bod cytundebau dysgu yn eu lle gyda'r presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant yn ymwneud â phob agwedd ar yr amgylchedd dysgu, addysgu ac ymarfer ac yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd.

- 3.4 Ymhob amgylched ddysgu, addysgu ac ymarfer, rhaid cael:
- gweithwyr proffesiynol sydd â'r cymwysterau a'r profiad gofynnol
 - digon o staff o broffesiynau perthnasol i ddarparu'r cwrs a chefnogi dysgu'r presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant
 - digon o adnoddau i ddarparu'r cwrs
 - cyfleusterau sy'n addas at eu diben, a
 - mynediad at adnoddau dysgu addas
- 3.5 Rhaid i bawb sydd ynghlwm wrth reoli a darparu cwrs ddeall eu rôl a rhaid eu cefnogi i wneud eu gwaith yn effeithiol.
- 3.6 Rhaid i bob presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant dderbyn cefnogaeth mewn amgylcheddau dysgu ac ymarfer. Rhaid bod mecanweithiau yn eu lle ar gyfer ymarferwyr dynodedig i gydgyssylltu gyda darparwyr yn gyson ynghylch cynnydd presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant mewn amgylcheddau dysgu ac ymarfer.

Monitro, adolygu a gwerthuso

Safon 4: Rhaid i ansawdd cyrsiau gael ei monitro, ei hadolygu a'i gwerthuso mewn ffordd ddatblygiadol a systemig.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 4.1 Rhaid i bob agwedd berthnasol ar gwrs gael ei monitro, ei hadolygu a'i gwerthuso'n systemig. Pan welir problemau, rhaid eu cofnodi a rhaid mynd i'r afael â nhw o fewn cyfnod wedi ei gytuno.
- 4.2 Rhaid bod strwythur rheoli ansawdd ar waith sy'n nodi gweithdrefnau monitro a gwerthuso, gyda chyfnodau amser gweithredu, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol am adrodd, adolygu a gweithredu pan fo'n briodol.
- 4.3 Rhaid bod gweithdrefnau yn eu lle i fonitro a gwerthuso safon yr addysgu, y dysgu a'r asesu, er mwyn sicrhau y cedwir safonau yn yr amgylcheddau dysgu i gyd.
- 4.4 Rhaid ystyried yr amgylchedd iechyd a gofal wrth fonitro ac adolygu er mwyn sicrhau bod cyrsiau wedi eu diweddarau ac yn adlewyrchu ymarfer presennol.
- 4.5 Rhaid i adborth gan bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant fod wedi ei wreiddio yn y prosesau monitro, adolygu a gwerthuso.
- 4.6 Rhaid bod y sefydliad darparu wedi dilysu'r cwrs cyn ymgeisio am achrediad gan y CFFC.

Dylunio a darparu cyrsiau

Safon 5: Rhaid i gyrsiau ddatblygu'r ymddygiad, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth proffesiynol sy'n ofynnol i gyflawni deilliannau Rhan 1 y safonau hyn drwy strategaeth ddysgu ac addysgu gydlynol.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 5.1 Rhaid cael strategaeth ddysgu ac addysgu sy'n nodi sut bydd presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant yn cyflawni deilliannau Rhan 1 y safonau hyn.
- 5.2 Rhaid i gyrsiau gael eu dylunio a'u darparu mewn ffordd sy'n integreiddio ac adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer sydd eisoes gan fferyllwyr sy'n hyfforddi i fod yn bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol.
- 5.3 Rhaid bod gan ddarparwyr cyrsiau weithwyr fferyllol proffesiynol, gan gynnwys presgripsiynwyr fferyllol annibynnol, ynghlwm wrth y gwaith o ddylunio a darparu cyrsiau.
- 5.4 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau drafod gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys cleifion, y cyhoedd, comisiynwyr cyrsiau a chyflogwyr i fireinio dyluniad a darpariaeth eu cyrsiau.
- 5.5 Rhaid i gyrsiau gael eu diweddarau pan fo newidiadau sylweddol mewn ymarfer, er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn gyfredol.
- 5.6 Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant ymgymryd ddim ond â thasgau y maen nhw'n alluog ynddynt, neu'n dysgu dan hyfforddiant i fod yn alluog ynddynt, er mwyn sicrhau na pheryglir diogelwch cleifion.
- 5.7 Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant gael eu goruchwyllo dan drefn sydd wedi cytuno arni ymhob amgylchedd ymarfer clinigol er mwyn sicrhau y darperir gofal â phobl yn ganolog iddo ar bob adeg.
- 5.8 Rhaid i reoliadau cyrsiau fod yn briodol ar gyfer cwrs sy'n arwain at anodiad proffesiynol. Hynny yw, rhaid iddynt flaenoriaethu diogelwch cleifion ac ymarfer a sgiliau clinigol diogel ac effeithiol.
- 5.9 Rhaid bod systemau yn eu lle i sicrhau bod presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant yn deall pa fecanweithiau addasrwydd i ymarfer sydd ar waith ar eu cyfer nhw. Rhaid i bob darparwr cyrsiau a chyflogwr gael gweithdrefnau yn eu lle i ddelio gyda phryderon addasrwydd i ymarfer.
- 5.10 Rhaid mynd i'r afael â phryderon am bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant, ymarferwyr presgripsiynu dynodedig neu amgylcheddau dysgu cyn gynted â phosibl ac mewn ffordd sy'n delio gyda'r hyn sy'n achosi pryder.

Dysgu wrth ymarfer

Safon 6: Rhaid i gyrsiau alluogi presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant ddatblygu'r ymddygiad, y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth proffesiynol sydd eu hangen i gyflawni deilliannau Rhan 1 y safonau hyn mewn lleoliadau dysgu wrth ymarfer.

- 6.5 Yr ymarferydd presgripsiynu dynodedig sy'n gyfrifol am ardystio bod presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant yn alluog i fod yn bresgripsiynydd fferyllol annibynnol.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 6.1 Rhaid i ran o'r cwrs ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant gael ei gynnal mewn lleoliadau clinigol gyda mynediad uniongyrchol at gleifion – dyma'r lleoliadau 'dysgu wrth ymarfer'.
- 6.2 Yn y lleoliadau dysgu wrth ymarfer a nodir yn 6.1, bydd presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant yn presgripsiynu dan oruchwyliaeth ymarferydd presgripsiynu dynodedig.
- 6.3 Os bydd mwy nag un person ynghlwm wrth orchwyllo presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant, rhaid i un presgripsiynydd annibynnol fod yn bennaf gyfrifol am yr oruchwyliaeth. Y person hwnnw fydd yr ymarferydd presgripsiynu dynodedig ar gyfer y presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant.
- 6.4 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gymeradwyo'r ymarferydd presgripsiynu dynodedig a chytuno bod ganddo neu ganddi'r galluedd craidd sydd eu hangen i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

Asesu

Safon 7: rhaid i gyrsiau gael strategaeth asesu sy'n asesu'r ymddygiad, galluedd sgiliau a dealltwriaeth proffesiynol sydd eu hangen i gyflawni amcanion Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r strategaeth asesu a yw ymarfer y presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant yn ddiogel ac yn glinigol briodol.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 7.1 Rhaid i gyrsiau gael strategaeth asesu sy'n sicrhau bod asesu yn wydn, yn ddibynadwy ac yn ddilys.
- 7.2 Mae darparwyr cyrsiau'n gyfrifol am sicrhau bod y deilliannau dysgu i gyd yn cael eu hasesu'n llawn, gan ddefnyddio dulliau priodol, a bod y dysgu a'r addysgu wedi eu halinio gyda'r asesu.
- 7.3 Rhaid mai diogelwch cleifion yw'r ystyriaeth bwysicaf un ar bob adeg, a rhaid i'r strategaeth asesu a yw presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant yn ymarfer yn ddiogel.
- 7.4 Rhaid cael systemau monitro yn eu lle ymhob amgylchedd dysgu. Rhaid i'r systemau asesu cynnydd y presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant tuag at gyflawni deilliannau dysgu Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid iddynt sicrhau bod ymarfer presgripsiynydd fferyllol annibynnol dan hyfforddiant yn ddiogel ar bob adeg.
- 7.5 Rhaid cael cytundebau yn eu lle rhwng darparwyr cyrsiau ac ymarferwyr presgripsiynu dynodedig sy'n disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r gweithdrefnau asesu presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant.
- 7.6 Rhaid i asesiadau gael eu gwneud gan bobl sydd wedi eu hyfforddi'n briodol, sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ac sy'n alluog i asesu perfformiad presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant.
- 7.7 Waeth ble mae'r lleoliad, rhaid i ansawdd asesiadau gael eu sicrhau gan ddarparwyr cyrsiau.
- 7.8 Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant dderbyn adborth cyson, priodol ac amserol yn gefn i'w datblygiad fel dysgwyr.
- 7.9 Rhaid i'r rheoliadau asesu fod yn addas ar gyfer cwrs sy'n arwain at anodiad proffesiynol. Wrth gwblhau'r cwrs, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol allu dangos bod eu hymarfer yn ddiogel ac yn rhoi'r flaenoriaeth i ddiogelwch cleifion.
- 7.10 Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant lwyddo ymhob un o'u hasesiadau crynodol cyn cael eu hardystio.
- 7.11 O ganlyniad i 7.10, ac ar sail diogelwch cleifion, ni chaniateir cydadfer na chydoddef ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant.

Cefnogaeth a'r profiad dysgu

Safon 8: rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant gael eu cefnogi ymhob amgylchedd dysgu i ddatblygu fel dysgwyr yn ystod eu hyfforddiant.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 8.1 Rhaid bod ystod o fecanweithiau yn eu lle i gefnogi hyfforddeion i gyflawni'r deilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau hyn, gan gynnwys:
 - sefydlu
 - goruchwyliaeth effeithiol
 - llwyth gwaith priodol a realistig
 - cefnogaeth bersonol ac academaidd, a
 - mynediad at adnoddau
- 8.2 Rhaid bod mecanweithiau ar waith i alluogi presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant i gwrdd yn rheolaidd gyda'u hymarferydd presgripsiynu dynodedig ac eraill i drafod a chofnodi eu cynnydd fel dysgwyr.
- 8.3 Rhaid bod gweithdrefnau clir yn eu lle i alluogi presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant i fynegi pryderon. Rhaid delio gydag unrhyw bryderon yn brydlon, a dylid cofnodi unrhyw gamau gweithredu pan yn briodol.
- 8.4 Rhaid i bawb sydd ynghlwm wrth gefnogi presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant ystyried canllawiau'r CFfC ar diwtora fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol pan yn briodol.

Ymarferwyr presgripsiynu dynodedig

Safon 9: Rhaid i ymarferwyr presgripsiynu dynodedig fod yn addas at y rôl a rhaid iddynt fod wedi cael profiad a hyfforddiant priodol.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 9.1 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gael mecanweithiau addas i sicrhau bod ymarferwyr presgripsiynu dynodedig yn addas i fod yn oruchwylwyr ar bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant.
- 9.2 Rhaid i ymarferwyr presgripsiynu dynodedig feddu ar:
 - allu presgripsiynu gweithredol sy'n berthnasol i'r maes y byddant yn ei oruchwyllo
 - sgiliau clinigol a diagnostig priodol at weithio'n uniongyrchol gyda chleifion
 - brofiad o gefnogi neu oruchwyllo gweithwyr gofal iechyd eraill, a'r
 - gallu i asesu sgiliau clinigol a diagnostig hyfforddeion wrth eu gwaith yn uniongyrchol gyda chleifion
- 9.3 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau ddarparu hyfforddiant i ymarferwyr presgripsiynu dynodedig yn y canlynol:
 - rôl y presgripsiynydd fferyllol annibynnol
 - y cwrs presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant y

byddant yn gweithio arno, gan gynnwys ei ddeilliannau dysgu

- rôl yr ymarferydd presgripsiynu dynodedig o fewn y cwrs
- asesu perfformiad presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant
- rhoi adborth i bresgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant
- cefnogi presgripsiynwyr fferyllol annibynnol dan hyfforddiant, a
- mynegi pryderon

9.4 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gefnogi ymarferwyr presgripsiynu dynodedig pan fônt yn gweithredu yn y rôl honno.

9.5 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau roi adborth i ymarferwyr presgripsiynu dynodedig ynghylch eu perfformiad a threfnu hyfforddiant, cymorth a chyfleoedd datblygu yn ôl yr angen.



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, London E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 **@TheGPHC**
 **TheGPHC**
 **[/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)**
www.pharmacyregulation.org